SUT I GADW'N YSBRYDOL EFFRO

Nodyn i'r siaradwr:
Ysgogwch ymwybyddiaeth yn y brodyr i berygl cyson cael ein trechu gan y syrthni ysbrydol sy'n treiddio trwy'r ddynoliaeth. Rhoddwch gyfarwyddyd eglur ynglŷn â beth i'w wneud a beth i'w osgoi er mwyn cadw'n ysbrydol effro. Anogwch nhw i fod yn fwyfwy gwyliadwrus wrth i'r diwedd agosáu

ANOGIR CRISTNOGION I GADW'N YSBRYDOL EFFRO (5 mun.)

Wrth i'r digwyddiad mwyaf tyngedfennol erioed, Armagedon, agosáu, mae'r ddynoliaeth yn gyffredinol ynghwsg yn ysbrydol (*w*91 5/1 21; *w*79 3/15 28-9)

Mae oes y gofod â'i chyflymdra chwyldroadol yn huno, yn anymwybodol i ystyr digwyddiadau'r byd (Mth 16: 2, 3)

Yn cyferbynu â hyn, anogir Cristnogion i "ddeffro o gwsg" ac i fod "yn wyliadwrus" (Rhuf 13:11-14; 1Cor 16:13; *it*-2 980)

Peidiwn â chymryd ein camarwain; medwn yr hyn a heuwn (Gal 6:7, 8)

Wynebwn y ffaith na allwn fforddio cysgu fel mae'r byd yn gyffredinol yn ei wneud (1Thes 5:6)

PAM MAE RHAI HEB GADW'N YSBRYDOL EFFRO (10 mun.)

Mae bodau dynol yn gyffredinol yn cael eu cadw'n brysur â gofalon bywyd a'r byd o'u cwmpas (Mth 24:37-39; *w*89 10/1 12-14; *w*87 5/15 20; *su* 50)

Er bod Jehofah yn darparu digonedd o fwyd ysbrydol, mae'r mwyafrif o bobl heddiw yn methu â derbyn o ddifrif y cyngor a gynigir yn gyson a'i gymhwyso (*w*87 5/1 16; *re* 21)

Fel pobl oes Noa, 'ni wyddant ddim'

Fe ganiata llawer iddynt eu hunain ddod yn ysbrydol ddall a byddar er honni bod yn bobl Dduw (Eseia 42:18-20)

Felly, a hwythau ynghwsg yn ysbrydol, ni ddysgant eu gwers (Eseia 42:25)

Caiff rhai eu suo i gysgu oherwydd ymddengys fod y byd yn mynd yn ei flaen fel arfer (*w*87 5/15 17-19; *w*76 441-3)

Mae gwelliannau economaidd, lleihau tyndra rhyngwladol, ac yn y blaen, yn achosi iddynt deimlo nad oes dim wedi newid (2Pedr 3:4)

Maent yn llwyr 'ymwneud â'r byd' (1Cor 7:31)

Mae rhai yn caniatau i'w clustiau wrando ar gau athrawiaeth (1In 4:4-6; *w*86 7/15 20)

Methant ag adnabod llais y Bugail Da ac ymateb iddo (In 10:4, 5, 16)

SUT I GADW'N YSBRYDOL EFFRO (15 mun.)

Rhaid inni gydnabod yr angen i barhau'n ysbrydol effro

"Ymddisgyblwch i weddio" (1Pedr 4:7)

"Gwyliwch, a gweddiwch" (Mth 26:41)

"Rhaid . . . bod yn effro a sobr" (1Thes 5:6)

"Ymddisgyblwch a byddwch effro" (1Pedr 5:8)

"Bydded i'r sawl sy'n tybio ei fod yn sefyll, wylio rhag iddo syrthio" (1Cor 10:12)

Cyfrannwch yn rheolaidd o'r 'bwyd yn ei bryd' oddi wrth gyfundrefn Jehofah (Mth 24:45)

Byddwch yn benderfynol o beidio â methu dim un pryd bwyd ysbrydol (Mth 5:3)

Mae astudio personol a bod yn bresennol yn y cyfarfodydd yn anghenrhaid taer ar bawb

Bwydwch ar fwyd ysbrydol yn eiddgar

Dilynwch ffyrdd, trefniadaeth, a pholisiau theocrataidd (*rs* 282-4)

Addefwch y gyfundrefn mae Jehofah yn ei defnyddio (*uw* 120-4)

Rhowch barch i'r rhai sy'n arwain ac ufuddhau iddynt (Heb 13:17; *w*89 9/15 20-5)

Ymataliwch rhag beirniadaeth neu siarad anystyriol

Canfyddwch eich lle yn nhrefniant Duw a glynwch wrtho

Peidiwch â checru ynglŷn ag aseiniadau a threfniadau (Rhuf 12:4, 6-8)

Cyflawnwch pa aseiniad bynnag a dderbyniwch yn dda (Preg 9:10)

Ymddiriedwch yn angylion Duw i wneud newidiadau lle bydd angen (Mth 13:41; Dat 1:16)

Daliwch ati i weddio (Rhuf 12:12)

'Roedd Iesu yn arbennig o ran cysondeb ei weddio (Mth 14:23; Mc 1:35; Lc 23:46)

Gweithredwch â'ch holl galon yn y weinidogaeth ac wrth gyfrannu'n ariannol

Mae Jehofah wedi gwneud llawer inni drwy ei gyfundrefn

Gallwn ddangos cariad tuag ato drwy gefnogaeth lwyr o ran ein hamser a'n cyllid (*w*92 1/15 14-16)

Proffwydwyd cefnogaeth o'r fath (Eseia 60:5; 61:5, 6; *w*85 3/1 15)

Dangoswch gariad at bawb, a gweithredwch yn deyrngar (Eff 4:1-3)

***'NAWR* YW'R AMSER TYNGEDFENNOL I GADW'N EFFRO** (12 mun.)

Fel Jeremeia, mae'r gwas ffyddlon a chall yn seinio rhybudd (Jer 4:19-31)

Gwingai Jeremeia mewn poen oherwydd y dinistr a welai'n dod

Rhoddodd rybudd, ond ni wnaeth y bobl sylw na dysgu gwers ohono (Eseia 42:25; Jer 4:22; *sl* 156)

Petaent wedi gwneud sylw, byddent wedi goroesi digwyddiadau 607 C.C.C.

Mae'r genhedlaeth hon yn wynebu trychineb tebyg

Bydd y rhai sy'n ymateb i ddatganiad dosbarth Jeremeia yn derbyn gwobr paradwys ysbrydol (Eseia 29: 17-19; *sl* 150)

'Nawr yw'r amser tyngedfennol oherwydd mae Satan yn gwybod bod ei amser yn fyr (Dat 12:12)

O weld "drygioni yn amlhau," efallai y bydd i'n cariad oeri (Mth 24:12; *w*84 10/1 31)

Mae angen gwyliadwrusrwydd cynyddol i wrthsefyll hunanoldeb, materoliaeth, chwantau cnawdol

Mae llwyddiant materol a rhagor o amser hamdden yn aml yn ddinistriol yn ysbrydol

Bu i rai a oroesodd erlid syrthio yn ddiweddarach i faglau eraill Satan

'Feiddiwn ni ddim bod yn or-hyderus (1Cor 10:12)

Wrth i Armagedon agosáu, mae'n arbennig o bwysig cadw'n effro

Mae rhybudd arbennig i bawb ohonom sy'n byw 'nawr yn yr amser tyngedfennol hwn (Dat 16:15)

Hapusrwydd fydd canlyniad cadw'n effro (*re* 231-2)

Mae bod yn effro yn golygu gweithredu llwyr a gwyliadwrus yng ngwasanaeth y Deyrnas

Bydd y rhai sy'n cysgu yn dioddef gwaradwydd, noethni ysbrydol, angau tragwyddol (Dat 21:8)

DEFNYDDIWCH YR AMSER SY'N WEDDILL I ANNOG ERAILL I EFFROGARWCH YSBRYDOL (3 mun.)

Dyma amser y cynhaeaf, sy'n dwyn cyfrifoldebau ychwanegol

Mae angen inni weithio rhagor o oriau; mae'r cynhaeaf yn fater o frys (Diar 10:5; *w*78 6/1 18)

Dysgwch eraill i adnabod Jehofah, i weddio'n rheolaidd (Col 4:2)

Yng nghyfarfodydd y gynulleidfa, 'enynnwch eraill' drwy fod yn barod i gyfrannu'n gadarnhaol yn ystod y cyfarfod (Heb 10:24, 25)

Mae hyn yn gofyn am astudio personol diwyd, sydd mor bwysig er mwyn cadw'n ysbrydol effro

Cadwch yn ysbrydol effro drwy roi sylw i chi'ch hun (Lc 21:34-36; *w*92 5/1 19-23)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)